| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Medi 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr** |
| **Teitl:** | **Datganiad Polisi Tâl** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

*1.1* Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Rhaid i'r datganiadau hyn gyfleu polisïau'r awdurdod ei hun tuag at ystod o faterion yn ymwneud â thalu ei weithlu, yn enwedig ei staff uwch (neu “brif swyddogion”) a'i weithwyr tâl isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan ddechrau gyda 2012/13. Cytunwyd ar Ddatganiad Polisi Tâl cyntaf Sir Ddinbych ym mis Medi 2012. Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiadau Polisi Tâl ar sail flynyddol, a'i gyhoeddi ar y wefan berthnasol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â Deddf Lleoliaeth 2011.

2.2 Cael cymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad Polisi Tâl ynghlwm sydd wedi cael ei ddrafftio yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac mae'n cynnwys holl drefniadau tâl presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y tâl isaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ynghlwm i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 O dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor ‘y pŵer i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol y gwêl yr Awdurdod yn dda’. Mae'r datganiad Polisi Tâl hwn yn nodi dull y Cyngor tuag at y Polisi Tâl yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2012/3 ac am bob blwyddyn ariannol ar ôl hynny, yn manylu ar:

a) Polisïau'r Awdurdod tuag at holl agweddau ac elfennau o dâl y Prif Swyddogion
b) Eu dull o gyhoeddi a mynediad i wybodaeth mewn perthynas â phob agwedd ar dâl y Prif Swyddogion

c) Polisïau’r Awdurdod tuag at dâl ei weithwyr tâl isaf (gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd a'r rhesymau amdano)

d) Y berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Ddim yn berthnasol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Does dim goblygiadau ariannol newydd ar gyfer y Cyngor yn deillio o'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

7.1 Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm. Mae hwn yn ddatganiad blynyddol o gyflogau a oedd yn destun asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn dilyn y Statws Sengl.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1. Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Swyddog Adran 151 a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod holl ofynion a38 (1) Deddf Lleoliaeth wedi eu hymgorffori yn y Datganiad Polisi Tâl cyntaf ar gyfer 2012/3

8.2. Mae gwybodaeth tâl wedi cael ei ddiweddaru gan Arbenigwr Cyflogau a Gwerthuso Swyddi yn dilyn Dyfarniad Cyflog NJC ym mis Ebrill 2014. Mae’r holl gyfraddau tâl eraill yr un fath â Datganiad Polisi 2013/14.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Byddai’r Cyngor yn mynd yn groes i’w rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Lleoliaeth os yw’n methu â mabwysiadu'r Polisi Tâl.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 a38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy’n ymdrin â’r pŵer i benodi swyddogion.